I must work the works of him that sent me
While it is day

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1894. [RHIF 74

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

GWIR DDYBEN BYWYD.*

"Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd tra yr ydyw hi yn ddydd."—IOAN IX. 4.

MAE dyben bodolaeth unrhyw beth i'w benderfynu gan ei natur. I'r graddau y byddwn yn gwybod beth yw galluoedd, cynneddfau, a chyfansoddiad gwahanol wrthddrychau y greadigaeth, gallnogir ni i ddeall yr amcan er pa un y maent wedi eu bwriadu. Gyda golwg ar y creaduriaid israddol, mae eu Dyben yn hawdd i'w ddeall, ar gyfrif symlder cymharol elfenau eu cyfansoddiad, ac o herwydd eu bod yn ufuddhau yn ddiffael i ddeddfau eu bodolaeth.

Ond pan y deuwn at ddyn, amgylchir ni gan anhawsderau. Perthyn iddo ddwy natur hollol groes i'w gilydd, yn ol pob ymddangosiad—y Corfforol a'r Ysprydol. Ac nid yw yn ddarostyngedig o *angenrheidrwydd* i ddeddfau y bydysawd. Medda ryddid—rhyddid ewyllys—gallu i ddylyn deddf ei feddwl ei hun, er gwaethaf pob symbyliad allanol yn y gwrthwyneb.

I. Pa fodd, ynte, y gallwn benderfynu beth yw dyben y bywyd dynol? Paham y crewyd ef? Yr wyf wedi dweyd fod dyben unrhyw beth yn cael ei benderfynu gan ei natur. Beth mae natur dyn yn ddysgu i ni?

1. Pan yr edrychwn ar yr hil ddynol am ateb i'r gofyniad hwn, y peth cyntaf ddaw i'r golwg yw y rhan faterol o ddyn. Gwelwn ei gyfansoddiad allanol (materol), yr hwn a dderbynia ddylanwadau oddiwrth y goleuni, yr awyr, a'r ddaear; yr hwn sydd yn agored i ddyoddefaint oddiwrth yr elfenau, yr hwn sydd yn awyddu

* Gweler *Perfect Life* Channing.

ac yn sychedu am fwyd, yn crynu dan ddylanwad yr oerfel, yn ymguddio rhag y gwres, a than ddylanwad yr holl bethau hyn, yn gorfod treulio y rhan fwyaf o'i fodolaeth i ddiwallu angenrheidiau'r corff. Er enghraifft, pan yr awn drwy heolydd rhyw ddinas, pa ffrydlifau o fywyd llawn o ddiwydrwydd a ddylifa yn ol a blaen! Y fath frys sydd yn eu cerddediad! Y fath ofal sydd yn argraffedig ar eu gwynebau! Pa gynnifer o wahanol alwedigaethau! A phrif amcan yr holl ddiwydrwydd parhaus hwn yw ennill cynnaliaeth i'r corff, estyn bywyd, dilladu, boddloni, ac addurno y corff. Yr argraff gyntaf a wneid arnom wrth weled dinas o'r fath fyddai, fod y natur ddynol wedi ei chreu er dybenion anifeilaidd. Mae'r tai wedi eu hadeiladu er amddiffyn y corff. Mae'r lluoedd enfawr sydd yn llanw ei heolydd yn ymddangos fel crynhoad o fodau wedi eu dwyn at eu gilydd i frwydro yn erbyn elfenau natur. A rhaid cydnabod fod yr argraff hon yn cael ei chadarnhau pan yr awn i ymddyddan â'r lluoedd hyn; o herwydd mwyniant corfforol yn wir ydyw y prif ad-daliad a ddysgwyliant am eu llafur. Rhaid caniatau cymmaint a hyn. Ond ai hyn yw prif ddyben y bywyd dynol? Wrth geisio ateb i'r gofyniad hwn, gosodaf ger eich bron ychydig o ystyriaethau syml er dangos mai nid ceisio am yr hyn sydd yn hyrwyddo daioni'r corff yw amcan mawr ein bodolaeth.

2. Teilynga ein sylw, yn y lle cyntaf, er fod dyn wedi ei drefnu i lafurio er mwyn y corff, etto ei fod yn dangos, hyd y nod yn y gwaith hwn, natur llawer uwch na'r corff. Yn ei waith yn darparu ar gyfer ei angenrheidiau, dengys ei hun yn fwy nag anifail. Dywedir weithiau fod dyn wedi ei dynghedu i weithio yn fwy caled nag anifeiliaid y maes. Rhaid iddo ennill ei fara trwy chwys ei wyneb; ond wrth gyflawnu'r gwaith hwn, mae yn gorfod defnyddio galluoedd nad yw'r anifail yn eu meddu. Felly, mae'r llafur y mae dyn yn gorfod myned trwyddo yn arwydd o'i fawredd, ac yn dangos fod iddo ddyben uwch na byw bywyd anifeilaidd yn unig. Yn y gwaith o ddarparu yr hyn sydd er lles i'r corff, y fath allu meddyliola moesol a ddangosir gan ddyn! Er ennill cynnaliaeth, cysur, a phleser i'r corff, mae'r meddwl dynol wedi olrain holl greadigaethau natur. A ydyw yn bossibl i ni allu credu fod y meddwl hwn wedi ei greu er mwyn y corff yn unig? A ydyw yn bossibl i ni allu credu fod y fath allu meddyliol, mor anhyspydd ei gyrhaeddiadau, wedi cael ei ddwyn i fodolaeth yn unig er mwyn y bywyd anifeilaidd? Mae rhywbeth yn y ffeithiau hyn, gyda golwg ar wir ddyben dyn, yn argyhoeddiadol iawn. Yn y gwaith o ddarparu ar gyfer ei natur faterol, fe ddatguddia natur ysprydol uwch. Nid oes eisieu i ni fyned yn mhellach na phleserau corfforol dyn cyn teimlo mai pleser ysprydol yw dyben ei fodolaeth. Cymmerwn wledd wedi ei hamcanu i ddwyn pleser i bob rhan o ddyn. Pan yr edrychwn ar y byrddau yn llwythog o bob math o ddanteithion, beth sydd yn tynu ein sylw fwyaf? Ai nid hyn? Y fath ymdrechion ar ran y meddwl sydd wedi eu gwneyd er darparu yr olygfa! Y fath ymchwiliadau trwyadl mewn gwybodaeth, y fath arbrofion craffus, oedd yn eisieu er cynnyrchu hyd y nod y cwpan o'r hwn yr yfwn! Y fath ystor o wybodaeth, y fath goethder mewn chwaeth, y fath ddychymyg,

sydd wedi bod yn cydgynllunio i weithio y meteloedd hyn yn addurnbethau mor brydferth! Pa faint o'r danteithion hyn hefyd sydd wedi eu cludo yno o eithafoedd y ddaear, yn groes i foroedd ystormus, trwy gyfryngau masnachol dirif, a hyny trwy fod y meddwl a'r ewyllys dynol wedi gorchfygu yr elfenau naturiol! Mae y wledd hon, yn yr hon y gall y gloddestwr ddarostwng ei hun i gyflwr yr anifail, yn dangos fod dyn wedi cael ei fwriadu ar gyfer gwybodaeth, athroniaeth, celfyddydiaeth, cymdeithas, a'i fod wedi ei ddonio â galluoedd meddyliol nas gellir gosod terfyn arnynt.

3. Yr wyf wedi siarad am y swm mawr o lafur meddyliol sydd yn cael ei ddefnyddio mewn gofalu am y corff. Ystyriwn cyn lleied o ddaioni, mewn ystyr gorfforol, a gynnyrchir gan yr holl lafur meddyliol hwn. Pe buasai ein hymdrechion yn cynnyrchu pleserau anifeilaidd anfesurol, tueddid ni efallai i feddwl ein bod wedi ein creu er mwyn y rhai hyn. Ond ai nid ydym yn sylwi ar fychander y pleserau anifeilaidd a ddeuant i feddiant dyn pan yr ystyriwn yr holl ofalon, y llafur, a'r poen trwy y rhai y maent wedi eu hennill? Pe hyn yn unig fyddai prif ddyben ein bodolaeth, yn sicr ni fuasent yn cael eu rhoddi i ni mewn modd mor brin. Ar ol holl ymdrechion dyn, pa mor ddarfodedig yw'r boddlonrwydd corfforol a ennilla! Ar ol yr holl wastraff ar nerth a meddwl, pa beth, mewn gwirionedd, yw'r elw? Ni lwydda ond yn anmherffaith i gadw ymaith y drygau i'r rhai y mae ei natur anifeilaidd yn agored. Nid yw'r daioni a ennilla ond daioni mewn ystyr nacaol. Adeiledir tai, gwneir dillad, trinir y ddaear, a chroesir y môr, nid er mwyn y mwyniant a ddaw o hyny, ond er dianc rhag dyoddefaint. Ac wedi'r cwbl, pa faint raid iddo ddyoddef, a chyn lleied yw y boddlonrwydd a ga ar y goreu! Amddiffyna y corff gwan am ychydig flynyddau yn nghanol mynych ymweliadau clefydau; ac yn y diwedd, mae bywyd yn diflanu. A ydyw hyn yn ymddangos fel pe mai lles y rhan anifeilaidd yw amcan penaf bodolaeth dyn? Nid oes un creadur yn gorfod gweithio er mwyn y corff fel y gwna dyn, ac nid oes un creadur yn mwynhau cyn lleied mor bell ag y mae mwyniant corfforol yn myned. Cymmerwch, fel enghraifft, y mwyafrif mawr o'r dosparth gweithgar yn mhob gwlad. Maent yn gweithio o r boreu hyd yr hwyr, am chwe' diwrnod allan o bob saith, mewn oerfel a gwres, ac aml beryglon, er ennill ymborth cwrs a phrin, a chael noddfa a dillad—y rhai, er eu bod yn cadw dyoddefaint draw, nad ydynt yn dwyn ond ychydig bleser gwirioneddol. Neu cymmerwn y masnachwyr, y rhai ydynt yn gaeth yn eu cyfrif-dai yn ystod y dydd, yn cael eu hafionyddu gan ofalon yn ystod y nos, yn gwylied cyfnewidiadau yr hinsawdd a'r fasnach. Cymharer yr ymdrechion hyn â swm y pleser a dderbyniant—at ba ochr y gogwydda'r fantol? Pan y meddyliom am y llafur diderfyn, mewn ac allan, er cadw i fyny ein cartrefi, mae'r pris a delir am gael byw yn ymddangos yn fawr. Mor hynod yw'r cyferbyniad rhwng yr anifeiliaid israddol a dyn, pan yr edrychwn ar y mater yn y goleuni hwn! Fel yr ydym yn gwylied y pryfaid dirif yn yr Haf o flodeuyn i flodeuyn, gan sugno melusder allan o honynt, a chael yn mhob maes wledd wedi ei darparu heb

un gofal ar eu tu hwy, gallwn yn hawdd deimlo fod y pryfaid hyn yn fwy ffortunus na dyn mor bell ag y mae mwynhau pleserau corfforol yn myned. A gellir dweyd yr un peth am anifeiliaid y maes. Ac nid yw yn amlwg ychwaith fod gwareiddiad yn lleihau beichiau dyn. Mae yr hil ddynol wedi bod yn llafurio am oesau er gwneyd y ddaear yn lle dymunol i fyw. Ond ar ol yr holl welliantau, gellir amheu pa un a ydym ni yn mwynhau bywyd yn well nag y gwnai ein cyndeidiau yn yr oesau gynt, o herwydd mae gwareiddiad, trwy amlhau angenion dyn, wedi amlhau ei waith a'i ofal. Pan y cymharwn lafur a mwyniantau dyn, rhaid cydnabod fod y daioni anifeilaidd a dderbynia yn rhy gyfyngedig, byrhoedlog, ac annigonol, i'w ystyried fel prif ddyben bywyd.

4 Af yn mlaen at olwg arall o'r pwnc ag sydd yn dysgu yr un wers. Edrychwch oddiamgylch ar y byd materol, yr hwn sydd yn ein gwasanaethu ar bob llaw. A ydyw yn dysgu mai ceisio daioni'r corff ydyw prif amcan bodolaeth dyn? "Y fath beirianwaith mawr," fel y dywedir weithiau, "sydd yn cael ei gadw mewn gwaith er cynnal a chysuro y byd anifeilaidd." Yn ddiamheu, mae hyn yn un allan o aneirif ddybenion y bydysawd. Ond yn sier, nid hwn yw y prif ddyben, mor bell ag y mae a fyno â dynolryw. Casglwn hyn oddiwrth y ffaith fod natur, yn ei goruchwyliaethau, yn fynych yn elyniaethus i ddyn. Onid yw'r haul yn danfon allan belydrau deifiol, gan fagu clefydau yn yr Haf; ac yn danfon pelydrau mor wan yn y Gauaf, fel ag i'n gosod yn agored i rew llym? Onid yw weithiau yn casglu cymmylau tew, y rhai, pan yn tori allan mewn ystorm, ydynt yn bwrw i lawr mewn diwrnod ffrwyth llafur tymhor hir; a phryd arall yn deifio ac yn crino tiroedd enfawr â sychder? Mae deddfau mawr natur, yn gyffredin, mae'n wir, yn fendithiol yn eu gweithrediadau; ond wrth feddwl am nerthoedd ofnadwy y byd materol, fel yr amlygir hwynt mewn ystormydd, mellt, daeargrynfâau, llosg fynyddau, a moroedd cynddeiriog a gynhyrfir gan gorwyntoedd, a fedr neb feddwl nad oes yn perthyn i'r ddaear un amcan uwch na chyflenwi angenrheidiau corfforol dyn? Pa beth yw y rhan fwyaf o fywyd dyn ond ymdrech barhaus yn erbyn elfenau dinystrol natur! Y fath gyfeillion peryglus yw hyd y nod ei rhoddion mwyaf cyffredin! Mae y tân, drwy gyfrwng yr hwn y gorchfygwn y mwn, ac y siriolwn ein cartref, yn barhaus yn ein bygwth â dinystr. Rhaid i ni frwydro â llu o fân-bryfaid cyn cael ein cynauafau a'n ffrwythau. Dywedwn fod natur yn gyfeilles i ni. Ai nid yw ei galluoedd nerthol yn llawn mor amlwg wedi eu hamcanu i'n gwrthwynebu ag i'n cynnorthwyo? Ai nid oes arwyddion amlwg fod natur wedi cael ei threfnu er deffroi dyn i wneyd ymdrech ddewr, trwy ein galw i frwydro yn erbyn ei galluoedd? A ydyw ei nerthoedd tra mawr ac ofnadwy, ei ffrydlifau o oleuni, ei llu o ser, ei dirgeledigaethau annirnadwy, wedi eu bwriadu yn unig er rhoddi boddhad i'r rhan anifeilaidd? Ai nid ydynt wedi eu bwriadu, yn hytrach, i ddeffroi y meddwl, i ysprydoli dewrder eofn, a'n dwyn i undeb ag Ewyllys sydd yn anfeidrol uwchlaw yr holl alluoedd materol gyda'u gilydd? Mor wahanol yw'r argraff a wneir ar y meddwl ystyriol gan natur i'r

argraff a wneir gan beiriant difywyd. Yn ei brydferthwch a'i fawr wychder annhraethol, egyr o'n blaen ddyfnder ar ol dyfnder, a chyffrydda â ffynnonellau o lawenydd, diolchgarwch, a charedigrwydd, y rhai ydynt mor anhyspydd a'i Fywyd gorlawn ei Hun. O herwydd mae Yspryd o allu a chariad yn anadlu trwy, yn cyssoni, ac yn bywhau yr oll, i'r hwn y teimlwn fod ein hysprydoedd ni ein hunain yn perthyn.

5. Dyma ydyw y wers fawr a ddysgir gan natur. A gallwn ddysgu yr un wers, fod dyn wedi ei wneyd er dyben nwch, pan y meddyliwn yn fwy manwl am y ddinas, yr argraff gyntaf am yr hon yw ei bod yn gasgliad o fodau wedi eu dwyn at eu gilydd er gweini i angenion corfforol y naill y llall. Y fath gof-golofn yw y ddinas i alluoedd anfarwol y meddwl dynol; a'r fath dystiolaeth ydyw dros Dynghed Ysprydol dyn! Pan y syllwn oddiamgylch ar yr adeiladau gorwych, pan y sylwn sut y mae'r creigiau diffurf wedi eu trin a'u gosod wrth eu gilydd, fel ag i fod yn adeiladau prydferth, a allwn ni beidio teimlo fod dyn yn fôd ag y mae Duw yn ei groesawu i fod yn gyd-greawdwr ag Ef ei Hun? A phan yr awn i fewn i'r tai sydd wedi eu pentyru fel hyn mor agos i'w gilydd, pa beth a gawn? Ai dim ond dyfeisiau er dyogelwch a noddfa ydynt? Oni chyfarfyddwn a darpariaethau dirif ar gyfer archwaethau uwch na mwyniant corfforol yn unig—archwaethau ydynt yn perthyn i fodau Ysprydol. A ydyw'r darluniau ar y mur wedi eu bwriadu yn unig i foddloni'r llygad trwy gyfrwng lliw? Oni anadlant gan brydferthwch, hawddgarwch, ac urddas? Gall fod yno wynebpryd un a gedwir mewn cof genym gan flynyddau o gyfeillgarwch, a chan obeithion am fyd gwell. Gall fod yno ddarlun o ryw gymmeriad dewr, neu o ryw anturiaeth ddewr, a'n hadgofia sut mae bywyd, a bendithion bywyd, wedi cael eu taflu ymaith er mwyn gwirionedd, gwlad, neu er mwyn Duw. Mae un darlun o'r fath, mewn un tŷ, yn ddigon o brawf dros alwedigaeth ysprydol dyn! Etto gofynaf, Beth yw dyben preswylfa dynol? Ai lle ydyw, yn yr hwn y cyd-gyferfydd dynion er mwyn bwyta, yfed, a chysgu, yn ddyogel? Adeiledir ty i fod yn gartref—canolbwynt lle gall y teulu fyw yn un; i fod yn lloches dawel, lle gall y serchiadau mwyaf tyner gael gorphwysfa; fel y gall cariad gael cartrefle o fewn ei furiau; fel y gall rhieni a phlant gofleidio eu gilydd, cyd gyfranogi o ofidiau a chysuron eu gilydd; ac, fel y gellir dechreu y gwaith o addasu bodau dynol ar gyfer dyledswyddau y bywyd hwn a pherffeithrwydd bywyd arall. Y rhai hyn ydynt brif ddyben preswylfa dynol. Wrth fyned trwy heolydd dinas, mor llawn o ddyddordeb yw'r meddwl, am yr holl ddygwyddiadau a gymmer le yn y cartrefi o'n hamgylch—aelwydydd, oddiamgylch y rhai y cyd-gyferfydd aelodau y teulu yn yr hwyr, ar ol bod yn wasgaredig trwy'r dydd, gwyr a gwragedd, rhieni a phlant, brodyr a chwiorydd,—yr afiach a'r cystuddiol yn cael eu meithrin gan yr iach, yr hen yn cael eu gwasanaethu gan yr ieuanc! Mewn dinas ai ni welwn ddim yn ychwaneg nag fod dyn wedi eu greu er mwyn paioni corfforol a darfodedig? Yn mhellach, yn mhlith adeiladau ydynt wedi eu bwriadu at amcanion daearol, onid ydym yn gweled eg-

lwysi gyda thyrau yn pwyntio tua'r nefoedd; ysgolion er addysgu yr ieuanc; llyfrgelloedd cyhoeddus, amgueddfeydd, yspyttai, gwallgofdai, y rhai ydynt oll yn tystiolaethu mai dyben bywyd dyn yw bod yn aelod o gymdeithas, dyrchafu yr hil ddynol, a dwyn dynolryw i deyrnas nefoedd, ac felly eu haddasu ar gyfer gwaith a llawenydd uwch y bywyd ysprydol?

(I'w barhau).

"NOS ANGEU YN NESHAU."

Pa ddyrnod ddaw arnaf yn araf nis gwn:
Diroesaw daw'r amser i ado'r byd hwn;
Mae'r olwg yn pylu, a'r cof yn gwanhau,
Ac amryw arwyddion "nos angeu'n neshau."

Mae'r corff yn gwargrymu, a'r frest yn bur gaeth,
Lle'r oeddwn mewn ie'nctid mor union a'r saeth;
Mae gwŷn yn mhob cymmal a'r cam yn byrhau,
A llu o arwyddion "nos angeu'n neshau."

Fel doe i mi gofio am foreu fy nydd,
Mae'r amser yn pasio fel gwenol y gw'ydd;
Mae byr ddydd fy mywyd yn prysur hwyrhau,
A beth am y dynghed—"nos angeu'n neshau?"

Mae'r dannedd yn syrthio fel dail oddiar bren,
A'r archwaeth yn pallu a'r ddot yn fy mhen;
Mae'r tafod a bloesgni, a'r clyw yn trymhau,
A mil o arwyddion "nos angeu'n neshau."

Er treulio fy hwyrddydd mewn bröydd teg, braf,
Rhyw wyniau newyddion yn gysson a gaf;
Y nos 'rwy'n breuddwydio, mae'r cwsg yn pellhau,
Fel un f'ai yn gwylio "nos angeu'n neshau."

Pa ddewin a ddywed fy nheimlad pryd hyn,
Wrth weled fy mhabell a'i gogwydd i'r glyn,
A phob rhyw gynneddfau yn graddol wanhau?
Difrifol yw gweled "nos angeu'n neshau."

O! llwyd fydd fy lletty draw'n glau yn y glyn;
Mae blodau'r pren almon yn hynod o wyn:
O Dduw, rho foddlonrwydd a ffydd i barhau,
I roesaw arwyddion "nos angeu'n neshau."

Os caf fy nghymmeryd i deyrnas fy Nuw,
Gadawaf yn dawel y byd lle 'rwy'n byw;
Moliannaf ei Enw tra'm chwyth yn parhau,
Ac elw fydd gweled "nos angeu'n neshau."

Pennant, Rhydowen. S.T.

Y MERTHYRON UNDODAIDD.

Yn holl wledydd gwareiddiedig y byd, mae y meddwl dynol yn teithio yn nghyfeiriad perffaith gydraddoldeb crefyddol; ac yn yr ymherodraeth Brydeinig, yr ydym bron a sylweddoli y drychfeddwl hwn. Fel canlyniad naturiol, nid yw yr erledigaeth a ddyoddefwn, fel enwad, agos mor galed ag y bu, hyd y nod o fewn côf ein henafgwyr. Tua dechreu y canrif presennol, pan oedd yr Undodiaid yn cymmeryd meddiant o'r tir yn nghanolbarth Ceredigion, gwrthwynebid hwynt mor egnïol gan luoedd Midian iawn ffyddiaeth, fel ag i greu ynddynt wir sêl a brwdfrydedd. Pan olreiniwn hanes unrhyw gyfundrefn ag sydd wedi bod o fendith barhaol i ddynolryw, gwelwn fod erledigaeth yn fynych yn foddion effeithiol i wasgaru gwreichion rhyddid a gwirionedd. Dyna fel y bu yn nghyfnod boreuaf Cristionogaeth. Pan erlidid y Cristionogion yn y canrifoedd cyntefig, gwnaent y fath gynnydd, fel y priodola rhai haneswyr eu llwyddiant i allu gwyrthiol. Yr un modd pan g'ai ein cyndeidiau Undodaidd eu hesgymuno, eu dirwyo a'u carcharu, yr oeddynt yn dwyn mawr sêl dros achos Duw a'i wirionedd. Eglurent eu hegwyddorion i'w plant, a phlant eu plant, ac ymdrechent i'w dwyn i fyny yn y ffydd a garent. Adeiledid y rhan fwyaf o'n hen gapeli mewn cilfachau annghyhoedd yn y trefi, ac mewn manau annghyfannedd rhwng y bryniau, fel na wnaent dynu sylw gelynion rhyddid crefyddol. Mewn rhai o honynt, megys hen gapel Call Lane, Leeds, unchben y pulpud yr oedd agoriad yn y nenfwd, a rhaff neu ysgol yn disgyn o hono, i alluogi y gweinidog ddringo i'w loches os byddai arwyddion o berygl. Ar ol esgyn tynai y rhaff neu yr ysgol ar ei ol, a chuddiai yr agoriad a chlawr a gedwid i'r pwrpas. Yn yr hen addoldai anwyl hyn, ymgynnullai gwŷr a gwragedd mwyaf duwiol a deallgar y deyrnas, i addoli Duw yn unol â'u hargyhoeddiadau, a phrisient y gwirionedd, oherwydd eu bod yn gorfod gwneyd rhyw aberth drosto. Dichon y byddem ni yn yr oes hon hefyd yn fwy selog pe na f'ai ein llwybr yn llawn mor ddirwystr. Dywed Diderot, yr ysgrifenydd Ffrengig, na ddarfu i'r un gwaith mawr erioed gael ei gyflawnu heb frwdfrydedd. Mae digon o drydan mewn un dyferyn o ddwfr i gynnyrchu tymhestl o fellt a tharanau; ac mae digon o allu mewn gronyn o frwdfrydedd gwirioneddol i orchfygu pob anhawsder. Mae Undodiaeth yn wrthddrych teilwng o'r holl frwdfrydedd a all y galon ddynol gynnhwys. Er amser Crist, mae wedi bod wrth ei gwaith dwyfol, yn

ymlid hen gyfeiliornadau ar ffo, yn lledaenu moesoldeb, ac yn amddiffyn egwyddorion sylfaenol crefydd bur—Tadoldeb Duw a Brawdoldeb Dyn. Yn yr oesoedd tywyll, pan braidd y diffoddid llusern deg gwirionedd Duw, gan gyfeiliornadau melldithiol Eglwys Rufain, yr oedd Undodiaid dewrion yma a thraw, yn barod i selio eu ffydd â gwaed eu calon. Llafurient, dyoddefent newyn a syched, a rhoddent eu bywydau i lawr yn ebyrth ar allor dyledswydd, fel y byddai i ni fwynhau rhagor-freintiau amgenach. Priodol yw i ni fyfyrio 'nawr ac eilwaith ar ddewrder arwyr ein ffydd, fel y byddo i ni, i ryw fesur, efelychu eu hesiampl.

Gellid rhanu y Merthyron Undodaidd yn dri dosparth, yn ol y cyfnod y blodeuent ynddo; sef:—

I. Y rhai a osodwyd i farwolaeth rhwng y flwyddyn 33 O.C., a Chynghor Nicea yn 325 O.C., pan gyntaf yr awdurdodwyd Trindodiaeth gan fwyafrif o Esgobion wedi eu galw at eu gilydd i benderfynu y mater.

II. Y Merthyron Ariaidd, ac ereill a ddyoddefasant yn ystod y deuddeg canrif o flaen y Diwygiad Protestanaidd.

III. Yr Undodiaid a roddwyd i farwolaeth y ddau canrif ar ol y Diwygiad.

I.

Mae y dosparth cyntaf yn lluosog iawn. Nid "lleng" ond "llengoedd" yw ei enw. Perthyn yr Iesu ei hun iddo. Mae gan Gristionogion lawer iawn o olygiadau yn nghylch natur person Awdwr a Pherffeithydd eu ffydd, ond rhaid iddynt oll addef iddo farw marwolaeth Merthyr ar y groes. Ystyr y gair Merthyr yw un sydd yn dwyn tystiolaeth. Meddyliwch am yr Athraw ieuanc dirodres, yr hwn a lafuriai mor galed dros ddynolryw, yn dyoddef y farwolaeth fwyaf arteithiol yn hytrach na bod yn fradwr i'w gydwybod! Drwy y weithred orphenol hon o hunan-aberth, rhoddodd dystiolaeth o'i berffaith ddidwylledd. Am y rheswm hwn ystyriwn ef yn Ferthyr—yn Dyst o Sancteiddrwydd diymwad gwirionedd dwyfol. Yr oedd yr Iesu yn wir Undodwr er nad oedd y gair etto wedi ei ddyfeisio. Credai ef yn yr unig wir a'r bywiol Dduw, yr Hwn a alwai, tra yn ymddyddan â'i ddysgyblion—"Fy Nhad I a'ch Tad chwithau, fy Nuw I a'ch Duw chwithau" Felly hefyd, yr oedd y dysgyblion,—gyda'r eithriad o Judas yr hwn a aeth "i'w le ei hun," a Ioan yr hwn a fu farw o henaint,—yn Ferthyron Undodaidd, oblegyd yr oeddynt oll yn Undodiaid trwyadl, a dyoddefasant angeu oherwydd eu sêl dros achos Crist. Undodiaid hefyd oedd Stephan a Phaul.

Cymmerodd yr erledigaeth gyffredinol gyntaf le yn Rhufain, ac ymledaenodd dros yr holl dalaethau, yn unol â deddf a basiwyd gan yr Ymherawdwr Nero oddeutu 34 mlynedd ar ol marwolaeth Crist. Yr oedd y Grefydd Newydd wedi gwnevd cynnydd mawr a chyflym yn Rhufain, yn enwedig yn mhlith y tlodion, a'r rhai oeddynt dan ormes y teyrn. Am fod y Cristionogion boreuol yn rhoddi pwys mawr ar foesoldeb, dirmygid hwynt gan eu cyd-ddinasyddion y rhai a garent

arferion llygredig yr hen Baganiaeth. Nid anfynych hefyd yn ein dyddiau ni gwawdir yr Undodiaid gan y rhai a alwant eu hunain yn Gristionogion Efengylaidd am ein bod ni, fel enwad, yn rhoddi gweithredoedd da o flaen credo. Yr oedd y Rhufeiniaid hefyd wedi bod yn gynnefin â defodau mawreddog a tharawiadol, ac wedi bod yn arfer addoli eilunod, ac eneidiau duwioledig bodau dynol, fel y gwna y Pabyddion yn awr, ac nid oedd ganddynt un cydymdeimlad a'r bobl syml, hunanymwadol hyn, y rhai a addolent y Duw anweledig. Yr oedd Nero yn benderfynol i'w dyfetha yn llwyr. Mae creulonderau yr erledigaeth hon yn wybyddus i bawb. Gorchuddid y ffyddloniaid â phŷg, a gosodid hwynt ar dân er goleuo pleser erddi yr Ymherawdwr yn yr hwyr. Dilledid ereill mewn crwyn anifeiliaid rheibus, a llarpid hwynt gan gŵn, llewod a dywalgwn, er rhoddi dyfyrwch i'r bobl yn y prif bleserle—yr Amphitheatre, lle yr yngynnullai can mil o edrychwyr, y rhai a sychedent am waed eu cyd-ddynion. Yn ystod yr erledigaeth hon syrthiodd Paul, ac amryw ereill o brif arweinwyr yr achos i law y gelyn; ond po fwyaf o fywydau a aberthid, mwyaf i gyd y cynnyddai y blaid Gristionogol. Gwir yw y dywediad mai "gwaed y Merthyron yw hâd yr eglwys." Yn ystod y cyfnod cyntaf dan ystyriaeth, bu dim llai na deg o erledigaethau cyffredinol, dan gyfarwyddyd a nawdd Ymherawdwyr Rhufain, ac mae yn anmhossibl dirnad nifer y rhai a ferthyrwyd. Mewn un flwyddyn dyoddefodd miloedd lawer; a pharhaodd hyn, gydag ychydig eithriadau, am dri chan mlynedd. Gan na freuddwydiai neb am Dduwdod Crist a'r Drindod am y 150 mlynedd cyntaf, a chan na ddaliai ond ychydig yr athrawiaethau hyn, a hyny mewn modd eglur, am y 150 mlynedd dylynol, mae yn amlwg fod y mwyafrif mawr o Ferthyron y cyfnod cyntaf yn Undodiaid. Credent yn y Tad fel yr Unig Dduw ac yn yr Iesu fel Brawd ac Arweinydd ar y ffordd i'r Ganaan Nefol. Yn mhlith y tystion dewrion hyn yr oedd pobl o bob gradd. Yr oedd llawer o honynt yn llanciau heb gyrhaedd oedran gwyr, megys Pancratius, yr hwn a ddarganfuwyd wedi ei osod i farwolaeth yn un o heolydd y ddinas. Yr oedd yn dywysog ac yn etifedd i gyfoeth mawr, a daethai i Rufain i astudio yn ol arfer pendefigion yr oes. Cofleidiodd yr Efengyl a gwell oedd ganddo "ddyoddef adfyd dros bobl Dduw na charu mwyniant pechod dros amser." Canfu un o famau Rhufain ef yn gorwedd yn ei waed, a'i wyneb mor siriol a gwyneb angel. Cododd ef yn ei breichiau a dygodd ef lle y cafodd ei gladdu mewn modd gweddus. Fechgyn ieuainc Cymru! os dygwydd i blant rhagfarn eich gwawdio am eich bod yn Undodiaid, cofiwch am ddewrder moesol Pancratius. Dyddorol yw nodi mai ar ol y sant bachgenaidd hwn y gelwir Eglwys Sant Pancras, Llundain. Dyoddefodd llawer o lancesau hefyd, mamau ieuainc fel Perpetua, a henafgwyr ar fin "ymadael mewn tangnefedd" fel Justin.

II.

Hyd yn hyn Paganiaid oedd yr erlidwyr. Yr oedd llawer o honynt yn

Faterolwyr ac Atheistiaid, y rhai ni chredent yn modolaeth un Gallu Dwyfol. Tybiai rhai o honynt, fel Trajan, eu bod yn gwneyd gwasanaeth da i'w gwlad drwy ddyfetha plaid grefyddol a wnai ei goreu i wrthwynebu hen sefydliadau cenedlaethol Rhufain. Yn awr dechreuodd erledigaeth ymddangos mewn gwedd newydd. Cododd annghydfod yn mhlith y Cristionogion eu hunain. Yn rhai o Eglwysi Asia yr oedd Theophilus o Antiochia wedi ceisio dwyn y gair "Trias"—"Trindod," i arferiad tua'r flwyddyn 170, ac yn mhlith y Rhufeiniaid yr oedd Tertullian wedi bod yn euog o ddwyn yr un cyfeiliornad i fewn i eglwysi Itali. Tua dechreu y pedwerydd canrif yr oedd y gredo Drindodaidd newydd hon wedi ymledaenu yma a thraw drwy lawer o'r eglwysi. Yr oedd y mwyafrif,—yn enwedig o'r bobl gyffredin, y rhai a garent symlrwydd y gwirionedd fel yr oedd yn yr Iesu,—yn Undodiaid, fel y profir gan ysgrifenwyr y cyfnod hwnw. Yna ymddangosodd dwy blaid yn yr Eglwys Gristionogol—Yr Undodiaid a'r Trindodiaid. Blaenorid yr Undodiaid gan Arius a'r Trindodiaid gan Athanasius. Yn Nghynghor Nicea, yr oedd yr Esgobion Trindodaidd yn y mwyafrif, ac o hyny allan ffafriodd yr Ymherawdwr Cystenyn achos yr Athanasiaid. Alltudiwyd Arius, ond ni ddystawyd mo hono, nes y gwenwynwyd ef gan ei elynion tra ar ymweliad a'r Ymherawdwr Valens yn Nghaer Cystenyn. Felly hefyd gellir ystyried yr arwr hwn yn mhlith y llu a roddasant eu bywydau i lawr dros ein ffydd. Yr oedd yn wr hynod hardd, o gymmeriad uchel, ac yn ysgolor gwych. Dywedir fod merched Alexandria, lle y llanwai y swydd o henadur, yn bleidiol iddo ef a'i athrawiaeth. Digon tebyg y byddai iddo gael ei ethol yn Esgob Caer Cystenyn, oni bai iddo gael ei dori i lawr mor greulawn, gan fod Ymherawdwr y Dwyrain, ar ol dadraniad yr Ymherodraeth ar farwolaeth Cystenyn Fawr yn bleidiol iddo. Drwy Ferthyrdod y dysgawdwr doeth hwn rhoddwyd attalfa ar gynnydd gwir grefydd am ganrifoedd. Nid yw meddylwyr mwyaf rhyddfrydig yn yr Eglwysi iawngred y dyddiau hyn ond braidd wedi cyrhaedd safle duwinyddol Arius bymtheg canrif a hanner yn ol! Yn ddiweddar yr ydym wedi clywed llawer am yr Iawnffyddiaeth Newydd. Mae llawer o flaenoriaid y mudiad hwn yn Ariaid, ac yn dal yr un golygiadau am berson Crist a hen weinidogion Ciliau, Caeronen a Llwynrhydowen. Maent ar y ffordd sydd yn arwain i diroedd teg Undodiaeth, lle blodeua rhinwedd dan haulwen cariad a dyledswydd.

Ar ol marwolaeth Arius dyoddefodd yr Undodiaid lawer o erledigaeth, er fod Valens, Ymherawdwr y Dwyrain, yn gyfaill iddynt, ac yn dal eu golygiadau. Yr oeddynt yn selog iawn dros y gwirionedd, a buont yn foddion i ddwyn y Gothiaid, y Vandaliaid, a'r Tiwtoniaid yn Ngogledd Ewrop, i gofleidio Cristionogaeth. Ond gan fod y wladwriaeth yn eu herbyn yn ngorllewinbarth Ewrop, a chan fod eu gelynion wedi penderfynu arfer pob dyfais a dichell i'w dinystrio, gyrid hwynt ar ffo i leoedd annghysbell yn yr Yspaen, Gogledd Affrica, Ffrainc, Switzerland, a'r Allmaen. Daliai llawer o honynt yr un golygiadau a'r Crynwyr, a diau na chyffyrddent â'r cleddyf hyd y nod mewn amddiffyniad, yn fynych syrthient yn ysglyfaeth i'w gelynion

arfog. Yn y Dwyrain, yn Asia Leiaf, a'r Aifft, yr oeddynt yn lluosog iawn, a braidd unig gynnrychiolwyr yr Eglwys Gristionogol hyd oddeutu deuddeg canrif a hanner yn ol, pan gyhoeddodd dysgyblion Mahommed ryfel er difodi pawb na dderbynient eu credo. Dros yr holl ororau a orchuddir yn awr gan diriogaethau Sultan Twrci, cafodd yr Undodiaid eu merthyru Hefyd darfu i Eglwys Rhufain losgi cynnifer o lawysgrifau Undodaidd a allai roddi llaw arnynt, ac ni wnai arbed un drafferth i dd'od o hyd iddynt. Ond am amser maith darfu i yspryd Undodiaeth oroesi creulonderau yr erlidwyr rhwng y mynyddoedd, hyd nes i Eglwys Rhufain yn y Gorllewin, a'r Eglwys Roegaidd yn y Dwyrain, ei gwneyd yn beth anmhossibl i neb fyw tu allan i'w cymundeb. Chwilid am hereticiaid yn mhob lle, as os na chydffurfient â defodau a chredoau y mwyafrif, rhoddid hwynt i farwolaeth. Yn yr amseroedd hyny, ni wnai pabau ac esgobion, y rhai a gymmerent arnynt fod yn unig wir ganlynwyr yr addfwyn Iesu, geisio argyhoeddi yr Undodiaid drwy rym rhesymeg. Anfonent y dienyddwr i roddi taw arnynt. Pan ddarfu i elynion rhyddid crefyddol daenu eu rhwydau dros bob gwlad, fel nad oedd yn bossibl i Undodwr proffesedig fyw, diflanodd ein henwad yn raddol allan o olwg. Yna dechreuodd cyfnod o gysgadrwydd meddyliol a moesol, pan y gellid dweyd fod yspryd yr Iesu wedi encilio o'r Eglwys. Yn awr galwn yr amseroedd hyny yr "Oesoedd Tywyll." Llywodraethai gorthrwm ac anfoesoldeb yn mhobman. Mae yn un o'r ffeithiau mwyaf pwysig ac arwyddocaol yn hanes crefydd, ddarfod i'r Eglwys fyned yn fwy paganaidd na'r baganiaeth ydoedd wedi dadymchwelyd, can gynted ag y gorfu i Undodiaeth encilio o'r tir o flaen tân a chleddyf erledigaeth. Yr wyf fi yn credu fod gan ein ffydd waith pennodol i'w wneyd yn Rhagluniaeth Duw, sef dal i fyny safon uchel o foesoldeb. Hyd y nod pe na bai ond un eglwys Undodaidd yn y wlad, yno y safai fel tyst cadarn yn erbyn ofergoeledd a chamwedd, a thwr amddiffynol i wirionedd a chyfiawnder. Lle bynag y mae eglwys Undodaidd mae yn ffynnonell dysg, diwydrwydd, a dylanwad da.

III.

Yn awr yr ydym yn dyfod at y trydydd cyfnod, yr hwn a gyrhaedda o'r Diwygiad Protestanaidd hyd yr amser presennol. Merthyr Undodaidd cyntaf y cyfnod hwn oedd Lewis Hetzer, yr hwn a gydoesai â Martin Luther. Daliai mai y Tad yn unig oedd Dduw, ac fod addoli delwau yn eilunaddoliaeth. Cyfeithodd ddarnau o'r Ysgrythyr i'r Ellmynaeg, pan oedd Martin Luther etto yn offeiriad Pabaidd. Am ei ymlyniad diysgog wrth ŷ ffydd Undodaidd rhoddwyd ef i farwolaeth yn Constance yn y flwyddyn 1527, O.C. Yna deuwn at enw yr hwn a ddylai gael ei barchu gan bob Undodwr drwy yr holl fyd, fel gwir arwr moesol, yr hwn a fu yn ffyddlon i'w argyhoeddiadau drwy bob caledi—Michael Servetus. Ganwyd ef yn yr Yspaen yn y flwyddyn 1509, O.C. Ar ol addysg foreuol dda astudiodd feddyginiaeth a duwinyddiaeth yn Ffrainc, lle yr enwogodd ei hun fel myfyriwr

diwyd ac athrylithgar. Tueddid ef at Undodiaeth drwy ddarllen yr Ysgrythyrau, a thrwy weled pa mor ddigrefydd oedd Rhufain, y ddinas sanctaidd ei hun, lle "y sangai pabau ar yddfau tywysogion, ac y derbynient ufudd-wasanaeth oddiwrth y bobl ar eu deulin." Yn mhlith gweithiau ereill ysgrifenodd ddau lyfr a alwai "Cyfeiliornadau y Drindod," ac "Adferiad Cristionogaeth." Yn awr cawn enghraifft dorcalonus o'r Eglwys Brotestanaidd yn llychwino ei dwylaw â gwaed gwirion. Ar yr amser hwn yr oedd John Calfin yn ben ar yr Eglwys Brotestanaidd yn Geneva, ac fel ei gyfundrefn o dduwinyddiaeth, nid oedd fawr o gariad brawdol ynddo. Penderfynodd roddi taw ar yr Undodwr talentog drwy ei losgi i farwolaeth wrth dân araf. Dygwyd y ddedfryd ellyllaidd hon i weithrediad er gwarth bythol i John Calfin a'i gredo gul a dienaid. Pan y safai Michael Servetus o flaen y barnwr, "ni wnai na bygythion nag annogaethau ei wneyd i dynu ei eiriau yn ol, nac i addef mai Crist yw y Duw tragwyddol." Os bydd i rai o honom ni, Undodiad y pedwerydd canrif ar bymtheg, gael ein temtio ar ryw adeg i wadu ein crefydd er mwyn rhyw elw bydol, bydded i ni gofio am ddewrder moesol y Merthyr Undodaidd, Michael Servetus. Yn fuan ar ol hyn merthyrwyd Undodwr enwog arall—John Valentine Gentilis, genedigol o deyrnas Naples, yr hwn a orfodwyd i ymadael a gwlad ei enedigaeth o herwydd ei grefydd. Cafodd John Calfin a'i ganlynwyr ar ddeall ei fod yn eu gororau a rhoddasant ef i farwolaeth. Fel yr oedd yn dynoethi ei wddf i'r dienyddwr, dywedodd ei fod "yn marw dros anrhydedd a gogoniant y Tad."

Yn Poland hefyd, yr oedd yr Undodiaid yn lluosog iawn, cyhyd ag y caent lonyddwch i addoli yr unig Dduw, gan yr awdurdodau gwladol; ond penderfynodd y pabyddion eu gwasgaru, a llwyddasant yn rhy dda. Cafodd llawer o honynt eu lladd a'u clwyfo, ac ni thraethwyd erioed holl hanes eu poen a'u hadfyd. Yn mhlith merthyron Undodaidd Poland yr oedd Cathrine Vogel, hen wraig dduwiol bedwar ugain oed. Arweiniwyd hi i'r farchnadle yn Cracow yn y flwyddyn 1539, O.C., ac yno, yn ngwydd ei gelynion, llosgwyd hi yn lludw. Pan arholwyd hi yn nghylch ei ffydd, dywedodd mewn llais eglur a diofn: "Yr wyf yn credu yn modolaeth un Duw, yr Hwn a greodd bobpeth gweledig ac anweledig, a'r Hwn na ellir amgyffred gan y meddwl dynol."

Yn yr un modd, dyoddefodd sylfaenwyr ein heglwysi yn Transylvania lawer iawn o adfyd. Bu ei phrif arweinydd ac ysgolhaig, Francis David, farw yn ngharchar yn y flwyddyn 1579, O.C. Er hyny, diolch i'r Nefoedd, ni ddiffoddwyd canwyll y gwirionedd yn llwyr yn y wlad hono. Yn awr mae genym lawer o eglwysi yno, ac yn agos i 80,000 o aelodau. Dyma rai o oleuadau mwyaf dysglaer ein henwad, y rhai a ddiffoddwyd gan gynddaredd rhagfarn grefyddol. Mae Calaniadur y Seintiau Undodaidd yn un maith iawn.

Yn ystod y cyfnod hwn yr oedd Undodiaid o enwogrwydd diymwad yn y wlad hon hefyd, a dyoddefasant orthrwm ac erledigaeth, fel eu

brodyr tu hwnt i'r môr. Dyna fu ffawd George Van Parris, genedigol o Uchel Dduciaeth Hessé, ac aelod o "Eglwys y Dyeithriaid" yn Llundain. Dywed ysgrifenydd Pabaidd am dano ei fod yn wr o rodiad hardd a difrycheulyd. Yn nheyrnasiad Iorwerth VI., yn y flwyddyn 1551, O.C., dedfrydwyd ef i gael ei losgi yn fyw, a chariwyd y ddedfryd allan yn Smithfield. Yn yr achos gwaedlyd hwn yr oedd yr esgobion yn cymmeryd dyddordeb mawr. Yn nheyrnasiad Mari, ychydig flynyddau yn ddiweddarach, dyoddefodd y gwyr a gyflawnasant yr ellyllwaith hwn yr un driniaeth ar law y pabyddion. Yn y flwyddyn 1579, O.C., llosgwyd Matthew Hamont yn fyw yn Norwich, ar ol iddo yn gyntaf gael ei anffurfio mewn modd gwarthus yn unol ag arferion yr oes. Ymddengys ei fod yn wr o feddwl craffus, ac yn Undodwr deallus. Bedair mlynedd yn ddiweddarach merthyrwyd John Lewes yn yr un ddinas, ac mae yn amlwg ei fod wedi derbyn ei addysg yn y ffydd Undodaidd oddiwrth Matthew Hamont. Teimlai ei bod yn ddyledswydd arno i broffesu yr hyn a dybiai ef oedd wir, gan nad beth fyddai y canlyniad. Yn y flwyddyn 1555, O.C., dienyddwyd Patrick Patingham yn Uxbridge am yr un trosedd. Ond John Biddle yw yr enwocaf o'n Merthyron yn y wlad hon, os oes y fath beth a graddau o enwogrwydd yn mhlith y ffyddloniaid a roddasant eu bywydau i lawr dros achos Duw. Ar ol erledigaeth greulawn yn ystod yr oll o'i fywyd cyhoeddus, bu farw yn ngharchar yn y flwyddyn 1662, O.C., sef y flwyddyn y pasiwyd y Ddeddf Unffurfiaeth ynddi, ac y sefydlwyd llawer o'n heglwysi gan y ddwy fil o weinidogion a adawsant eu pwlpudau yn yr Eglwys Wladol yn hytrach na bradychu eu cydwybodau. Mae yn amlwg i oes John Biddle gael ei byrhau gan ei fynych garchariad. Teimlai yn ei oriau olaf ei fod wedi gorphen ei waith, a'i fod wedi hau hâd gwirionedd a rhinwedd, yr hwn a fyddai yn sicr o dyfu er gogoniant i'r unig Dduw, a bendith i ddynolryw.

Y Merthyr Undodaidd olaf yn yr Ynysoedd Prydeinig oedd Thomas Aikenhead, yr hwn a roddwyd i farwolaeth yn Edinburgh yn y flwyddyn 1697, O.C.—llai na dau can' mlynedd yn ol. Yr oedd yn fyfyriwr yn y Brif Ysgol, ac nid oedd ond deunaw oed pan ddienyddiwyd ef. Yr oedd yn llanc o gymmeriad pur a chysson, ac yn fyfyrgar iawn. Ond gan ei fod yn dewis canlyn llais ei gydwybod, ac yn methu derbyn credo gul Galfinaidd ei wlad, ni orphwysai ei elynion hyd nes iddynt erlid ei enaid allan o'r byd. Nid wyf wedi rhoddi ond crynodeb byr o'r hyn a ddyoddefodd addolwyr yr unig Dduw drwy yr oesau; ond yr wyf yn hyderu fy mod wedi dweyd digon i brofi fod ein hachos yn un henafol a theilwng o barch, wedi ei gyssegru gan waed Merthyron lawer, ac wedi ei ddwyn yn mlaen hyd yn hyn yn mhlith llu o anhawsderau, gan wyr a gwragedd a garant wirionedd yn fwy na hen draddodiadau, Efengyl bur yr Iesu yn fwy na chyfeiliornadau Athanasius, Awstin, a Chalfin, a Duw a phob daioni yn fwy na dim.

Bradford, E. Ceredig Jones.

LLINELLAU YSGRIFENWYD NOS ANGLADD MRS. EVANS, OVERTON STREET, DOWLAIS, RHAG. 7fed, 1893.

O blant, 'rydych heno'n amddifad, heb dad nac ychwaith anwyl fam;
Duw'r nefoedd a'r ddaear, Duw'r Cariad, gwersylla o'u hamgylch bob
A ydyw'r gwefusau yn llosgi gan fil o weddiau taer, poeth, [cam.
Ddanfonwyd i beidio ei cholli, eithr nas bu eu hateb yn ddoeth?
Mae'r glyn yn lled dywyll, anwyliaid, mae'r wybren heb un seren ddydd,
Mae dyrus ffyrdd Tad yr amddifaid yn trethu, 'rwy'n ofni, eich ffydd.
Rhaid peidio ymsuddo'n y garw, ddu gefnfor, anghorwch yn Nuw;
Dangoswch eich cariad i'r marw trwy ffyddlon was'naethu y byw.
Chwi glywsoch y bregeth odidog yn nghapel henafol y Cefn,
Am gariad y Tad Hollalluog, a gwir ddoeth ddybenion y Drefn.
Mi fethais fy hun a llefaru, fy nhafod anffyddlon fu im';
Eich gwel'd yn amddifad-alaru, ni allai'm gwefusau ddweyd dim.
Yr o'wn yn y wely-ystafell pan gynt y bu farw eich tad,
Yn gwylio yr yspryd o'r babell yn dirwyn, a gwel'd ei ryddhad;
A gyda chwi etto a'm dagrau pan dianc wnaeth yspryd eich mam;
Yn gwylio yr awrlais-funydau pan ro'es o fyd amser y llam.
Ymdorodd cain hedd dros ei gwyneb—rhyw wedd o lesmeiriol fwynhad,
Wrth adael blinderon marwoldeb, a gwel'd gogoniannau y wlad.
Nid "pabell" i'w hyspryd aruchel gymhwyswyd i'w anfarwol rawd,
Ond "teml" gref, gyfaddas;—byth-ffarwel, wendidau cynhenid y cnawd!

Ifor Davies.

TRAETHAWD AR HANES SEFYDLIAD YR EGLWYS UNDODAIDD YN LLANBEDR.

[wedi ei dalfyru.]

(Budduyol yn Eisteddfod Brondeifi, Rhagfyr 20fed, 1893.)

Dywedai rhyw frawd y dydd o'r blaen ei fod ef yn rhyfeddu na fuasai Undodiaeth wedi ei sefydlu yn Llanbedr lawer yn gynt nag y cafodd ei sefydlu. Nid yw sefydlu achos yn waith mor hawdd ag mae y brawd wedi feddwl, ac yn y traethawd hwn ymdrechaf ddangos pa fodd y cafodd yr eglwys Undodaidd yn Llanbedr ei sefydlu. Yn y flwyddyn 1862, os wyf yn cofio yn iawn, ymgymmerodd ychydig o benau teuluoedd yn nghymmydogaeth y Ram—nid Undodiaid i gyd—a threfnu y ffordd i ymdrin â'r plant oeddynt yn cael eu hesgeuluso, ac yn cael eu goddef i redeg yn wyllt ar hyd yr heolydd a'r meusydd ar y Sabboth. Ar ol tipyn o ymgynghori trefnwyd yn unfrydol i gychwyn Ysgol Sul o dŷ i dŷ, a'r personau a gymmerasant ran yn y gwaith oeddynt—William Davies, Efel Fach; David Davies, New York; Tim. Davies, Ty'nrhos; Wm. Davies, Abertrinant; T.

O'Connell, Lax; Rees Davies, Cwmbedw; John Williams, Lleinau; a'r hen dad, Dd. Williams, Lleinau. Bum bron ag annghofio yr un ffyddlonaf o'r oll, sef Wm. Evans, New York, oblegyd pwy bynag fyddai yn absennol, yr oedd William, y teiliwr, bob amser yn ei le. Dechreuwyd yr Ysgol Sul gyntaf yn New York, ac oddiyno ai ar ei chylch i Ty'nrhos, Cwmbedw, Lleinau, a'r tai ereill o fewn yr ardal. Nid oedd unrhyw fwriad yn meddwl neb yr adeg hono am sefydlu achos Undodaidd na Thrindodaidd, ond cychwyn sefydliad bychan er mwyn lles i'r plant a ddaethent i'r Ysgol Sul gyntaf, ac a barhasant yn ffyddlon hyd y diwedd. Cadwyd yr Ysgol yn y modd hwn am rai blynyddau heb fawr llewyrch arni, ond etto yn fyw; ac er fod ambell un o'r sefydlwyr a'r blaenoriaid yn dechreu llaesu dwylaw, yr oedd ymlyniad y plant wrth y gwaith da yn symbyliad i ereill ddal ati. Nid oedd llawer o waith ond oedd raid yn cael ei wneyd yn yr Ysgol yn ystod y blynyddau cyntaf, a hyny am fod y plant yn lled ieuanc, ac ni chaniatäai amgylchiadau i'r Ysgol gael ei chadw yn hir yn yr un tŷ. Yn nechreu haf y flwyddyn 1867, fodd bynag, gwawriodd cyfnod newydd ar yr Ysgol trwy i Mr. Herbert Jones, o'r Ram yr adeg hono, ond o Coedmor Isaf yn bresennol, ganiatau benthyg cegin Ty'nyrheol at ei gwasanaeth. Trigiannai un David Lloyd a'i deulu yn y parlwr, ac er fod y mudiad yn "nydd y pethau bychain" yr amser hwnw, nid digon cegin Ty'nyrheol i'w gynnwys. Nid rhoddi ei dŷ at wasanaeth y sefydliad bychan yn unig wnaeth Mr. Herbert Jones, fe roddodd hefyd ei bresennoldeb yn y tŷ, a bu nawdd y teulu dros yr achos yn ystod ei arosiad yn y lle. Nid hir y bu David Lloyd a'i deulu cyn ymadael â'r parlwr, yr hwn a neillduwyd wedi hyny i gadw coed sychion—llawer o honynt yn blanciau cyrbau, y rhai a fuont o ddefnydd mawr i'r ysgolheigion trwy ffurfio eisteddleoedd, a thrwy roddi eu rhisgl yn danwydd i gynneu tân er gwresogi tipyn ar y lle. Ar ol iddynt ddarfod, byddai yr athrawon yn arferol o ddwyn coed yn eu pocedau i'r un perwyl. Cofied y darllenydd mai gwaith hawdd oedd pilo'r planciau a chario coed mewn pocedau, a chynneu tân, ond y gwaith pwysicach a orphwysai ar ysgwyddau yr athrawon ydoedd pwrcasu moddion i ateb i'r dyhead oedd yn meddyliau y bobl ieuainc. Hawdd iawn oedd boddloni un dosparth, sef trwy roddi iddynt adnod neu ddwy i'w dysgu a'u hadrodd yn gyhoeddus; perai y dosparth arall gryn drafferth i r athraw cerddoriaeth, oblegyd sychedent am wybodaeth yn barhaus, a byddent yn barod i gymmeryd eu harwain gan unrhyw un a wyddai rywfaint am ganu. Nid oedd neb yn diystyru dydd y pethau bychain, ond pawb yn cydweithio er dwyn oddiamgylch lwyddiant yr achos. Ar ol rhai blynyddau o lafur, dan lawer iawn o anfanteision, daeth cyfnod gwell ar y canu trwy i Daniel Jones a'i deulu ddyfod o Nantego, Cellan, i fyw i Lanbedr; fe ymroddodd ef ac Evan, ei fab, yn egniol at y canu am yspaid faith, ond gorfodai amgylchiadau hwythau etto i adael yr arweinyddiaeth yn aml, a hyny ar ambell dro pan fyddai mwyaf eu heisieu. Yr wyf yn cofio un tro fod cyfarfod llenyddol i fod yn Nghaeronen, yn yr hwn y bwriadai bechgyn a merched Ysgol y Ram gymmeryd rhan helaeth, ond gyda

dechreu y parotoadau gorfu ar y blaenoriaid ymadael, a throsglwyddo y gwaith i ereill. Yn ffodus, yr oedd pethau wedi cyfnewid yn fawr erbyn hyn, y plant a fuont yn edrych i fyny at yr athraw er mwyn dysgu rhyw hen emyn a genid wrth ddechreu a diweddu yr ysgol, oeddynt yn awr yn alluog i gynnorthwyo eu gilydd, ac i ymdaro drostynt eu hunain. Yn yr amgylchiadau uchod daeth J. Hathren Davies, yr hwn a fu yn dysgu elfenau cyntaf cerddoriaeth yn athrofa Miss Jones, Wern, allan i arwain y plant ar gyfer y cyfarfod y cyfeiriais ato. Bu ef o help mawr i'w dad yr amser hwnw, am y gorfodid yr olaf weithiau i ganu ambell *solo*, a'r plant i ganu yn y *chorus*, ac yr oedd John yn rhoddi rhai gwersi celyd i'w dad am ei fod yn lled hwyrfrydig i feistrioli yr unawd a geisiai ei chanu. Ar ol rhai blynyddau o dyfiant mewn corff a meddwl, a chyda dyfalbarhad, fe ddaeth yr achos bychan a dinod a gafodd ei ddechreu o dŷ i dŷ, yn allu ac yn ddylanwad yn y gymmydogaeth, ac yn ddigon nerthol i dynu hen bobl allan o'u tai, ac i gyfeirio eu camrau i Ty'nyrheol i glywed y bobl ieuainc yn ymarfer â'u galluoedd, ac wrth weled y cynnulliadau yn lluosogi yn barhaus, meddyliodd rhai o'r blaenoriaid am gael pregeth ambell nos Sul, a gwnaed y cynllun yn hyspys i'r Parchn. R. C. Jones a D. Evans, gweinidog Caeronen, y rhai a gefnogasant y mudiad ac a roisant eu gwasanaeth yn rhad am gryn amser. Yr wyf yn meddwl mai y Parch. R. C. Jones oedd y cyntaf a bregethodd yno, ac efe a bregethodd amlaf am ei fod yn byw yn Llanbedr. Yr oedd ein Suliau yr adeg hono yn cael eu cymmeryd i fyny yn lled lwyr gan gyfarfodydd. Aem i Gaeronen i'r cwrdd am ddeg yn y boreu, Ysgol Sul yn Ty'nyrheol am ddau, Ysgol Gân neu bregeth drachefn am chwech. Arferai Mr. Jones bregethu yn Nghaeronen yn y boreu, yn y Cribin yn y prydnawn, ac yn Ty'nyrheol yn yr hwyr. Fe wel y cyfarwydd â'r pellder rhwng y gwahanol leoedd hyn mai nid trwy blethu dwylaw a chysgu y sefydlwyd yr achos Undodaidd yn Llanbedr. Yn mhlith y rhai fuont yn gweinidogaethu yma o bryd i bryd, yn ychwanegol at y rhai a enwyd eisoes, gallwn grybwyll Mr. Gwenogfryn Evans, M.A., Rhydychain; Mr. E. W. Humphreys, o America; y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, ac amryw ereill. Yr oedd y gwaith wedi troi allan yn llwyddiant erbyn hyn,—yr hen yn mwynhau eu hunain dan y pregethau, a'r bobl ieuainc yn ymhyfrydu yn y llenyddiaeth flasus a roddid yn eu dwylaw. Yr oedd yn rhaid i'r olaf wrth gyfarfodydd adloniadol yn aml er eu symbylu i fwy o egni gyda'r gwaith; yn wir, rhaid oedd i bob dosparth yn y gymdeithas gael yr hyn oedd yn rhoddi pleser ac hyfrydwch i'r meddwl.

Wedi i'r achos ddal ati, ac iddo dderbyn caredigrwydd gan bell ac agos, aeth y tŷ ag oedd wedi bod yn orlawn am dymhor hir bellach, yn rhy fychan i gynnwys y gynnulleidfa, a dechreuai rhai siarad am gael capel newydd. Yn agos i ddiwedd y flwyddyn 1871, fodd bynag, meddyliodd y blaenoriaid am wneyd ffordd newydd o fegian: yr oeddynt wedi blino ar ofyn i'r pregethwyr roddi eu gwasanaeth am ddim o hyd, a'r ffordd a gymmerwyd i gasglu ychydig arian oedd cael Gwilym

Marles i draddodi darlith. Bu pawb ar eu heithaf i werthu tocynau yn adeg y Nadolig, a phan ddaeth noson y ddarlith yr oedd yno gynnulliad lluosog iawn, a chafwyd elw lled dda yn ol yr amgylchiadau. Wedi talu y treuliau a rhoddi ychydig i Mr. E. P. Jones am ei lafur yn arwain y canu, rhoddwyd y gweddill yn nwylaw y diweddar Mr. D. Rees, Eurfaen Hall, Llanbedr, gyda phenderfyniad i roddi hanner coron am bob pregeth tra y parhaai yr ariau, ac yr wyf yn meddwl i'r arian barhau hyd ddiwedd yr hen oruchwyliaeth. Yr oedd y son a'r si am adeiladu yn cynnyddu yn barhaus, a barn yr ysgol oedd mai yn nghymmydogaeth y Ram oedd y man lle y dylid addoli, ac mae'r syniad hwnw heb ei lwyr ddileu oddiar eu meddwl hyd heddyw. Barn y cyfoethogion o'r tu allan, fodd bynag, oedd mai yn nes i'r dref oedd y capel i fod, a chan mai tlodion oedd mwyafrif aelodau yr ysgol, nid oedd ganddynt y gallu i wrthsefyll y bobl a feddent ar y cyfoeth a'r dylanwad, ac am na chafodd y dosparth gweithiol eu dymuniad, ac am y teimlent eu hunain mor gartrefol a chysurus yn yr hen dŷ, ychydig iawn o ddyddordeb a gymmerasant yn yr adeiladu. Y personau canlynol oeddynt yr offerynau mwyaf blaenllaw i godi y capel newydd:—Mr. D. Rees, Gilgell; Mr. T. Rees, Felindre; Mr. D. Rees, Eurfaen Hall; Dr. Evans, a'r Parch. R. C. Jones. Mae y ddau olaf yn fyw yn bresennol. Felly yr oedd y ddwy ran o'r gymdeithas yn cydweithio—y naill oddifewn, a'r llall oddiallan, ac amcan y ddwy oedd sefydlu achos Undodaidd yn Llanbedr. Yn y gwanwyn o'r flwyddyn 1874, pan oedd swn adeiladu ar ddyfod yn sylwedd, cyhoeddwyd cyfarfod i fod yn Ty'nyrheol ar nos Wener, os wyf yn cofio yn iawn, i'r dyben o gael gweled pa gynnifer o aelodau oedd yno er cyfansoddi yr eglwys yn y capel newydd. Fe ddaeth y noswaith, ac erbyn edrych yr oedd yno gynnulleidfa luosog: fe gafodd David Davies, New York yr adeg hono, Cwmanu yn bresennol, fyned yn "Shon Holwr," a'r diweddar D. Lloyd Rees, Tanyfoel, yn ysgrifenydd. Wedi siarad â phob un yn y gynnulleidfa, cafwyd fod 42 o enwau ar y llyfr. Cangen o Gaeronen gyfrifid yr ysgol hon hyd y noson a nodwyd; ond yn awr cafodd ei gwneyd yn achos crefyddol ar ei ben ei hun, i sefyll neu syrthio o hyny allan. Y Parch. R. C. Jones oedd y gweinidog i fod, a'r diaconiaid a bennodwyd y noswaith hono oeddent Dd. Davies, John Davies, John Williams, a Daniel Jones. Y Sul cyntaf ar ol hyn, rhanodd y Parch. R. C. Jones yr ordinhad o Swpper yr Arglwydd, y cymundeb cyntaf yn yr hen dŷ; cadwyd ef yn fisol nes i'r gynnulleidfa fyned i'r capel newydd. Fel y crybwyllwyd eisoes, barnodd yr awdurdodau mai goreu oedd codi y capel yn agos i dref Llanbedr, a buont yn ffodus iawn i gael darn o dir at gladdu ac adeiladu tŷ cwrdd gan Mr. Hughes, Neuadd Fawr, ar fferm Brongest. Yn mis Mawrth, 1875, galwyd rhai o'r blaenoriaid at eu gilydd i'r cae lle y bwriedid adeiladu, i'r dyben o roddi *railing* o gylch y darn tir. Yn nechreu mis Mai, o'r un flwyddyn, cyn rhoddi carreg o'r capel newydd i lawr, dechreuwyd cyssegru y lle gan Dr. Evans a'i briod, trwy iddynt ddwyn corff eu mab bychan, William Jenner, i gael ei gladdu yn y gladdfa newydd; a'r newydd a glywsech y dyddiau hyny

gan blant y dref oedd fod "Willie bach y Dr. yn cael ei gladdu yn Nghae Pwll Swnd (*sand*) Brongest." Mae gan Willie ddigon o gwmni yno erbyn heddyw. Yn mis Mai, 1876, cafodd y Parch. R. C. Jones a'i briod eu gorfodi i wneyd yr un peth â'u hunig fab, David Bache, ac er fod y capel heb ei orphen, cafodd yr angladd fyned i fewn, a phregethodd y Parch. R. J. Jones, Aberdar, ar yr achlysur. Hon oedd y bregeth gyntaf yn Nghapel Undodaidd Llanbedr. Gorphenwyd y capel yn mis Mehefin, ac yr oedd hiraeth mawr ar lawer o bersonau wrth feddwl ymadael â'r hen dŷ--lle cyssegredig yn meddyliau lluaws hyd heddyw, lle y bu y plentyn bychan na allai barablu yn iawn, y bechgyn a'r merched, i fyny hyd at yr hen wr a'r hen wraig yn crymu dan bwysau henaint, am flynyddau yn cyd-ddarllen, yn cyd-ganu, a chyd-addoli, a lle y cawsant lawer gwledd hyfryd yn y gwaith da. Ar un Sabboth cyn diwedd y mis, gadawodd y gynnulleidfa ei hen annedd ac aeth i'r cartref newydd, gyda theimladau dyeithr, pryd y pregethodd y Parchn. D. Evans, B.A., a R. C. Jones; ac wrth dynu cortynau ei phreswylfod, nid oedd gan y gynnulleidfa fawr o gelfi i'w symmud, dim ond gwerth hanner coron o Feibl, dau lyfr emynau, a rhywbeth ar lun pwlpud. Yn mis Gorphenaf, cynnaliwyd y cyfarfodydd blynyddol ar bwys y capel, pryd y trodd y cyfan allan yn llwyddiant mawr.

Cwmann. D. Davies.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynnaliwyd Cyfarfodydd Chwarterol y gymdeithas hon ar ddyddiau Mawrth a Mercher, Ionawr 2il a'r 3ydd, 1894, yn Nghapel y Graig, Llandyssul. Bu arnom gryn bryder mewn perthynas i'r cyrddau hyn; ond yn awr, y maent yn mhlith y pethau a fu, a gobeithiaf nad yw yr had da a hauwyd ynddynt wedi syrthio mewn creigleoedd. Os yw y darllenydd am farn y lluaws am danynt, dymunwn gyhoeddi ein bod wedi clywed oddiwrth wahanol bersonau, mewn gwahanol fanau, "na fu gwell cyrddau gan yr Undodiaid erioed." Beth bynag am hyn, yr ydym ni wedi ein llwyr foddloni, oblegyd o ran y tywydd, nifer y gwrandawyr a'r pregethwyr, trodd y cyfan yn llwyddiant. Yn ystod y cyfarfodydd, gwelsom, yn mhlith ereill, y Parchn. T. Thomas, Pantydefaid; R. J. Jones, M.A., Aberdar; R. C. Jones, Llanbedr; J. Davies, Alltyplaca; W. Griffiths, Ph.D., B D.; J. Hathren Davies; W. James, B.A.; T. Robinson, Abertawe; Enoch Jenkins, D. Evans, Cribin; T. James, M.A. (M.C.); T. Pennant Phillips (A.); W. J. Davies, gweinidog y lle; hefyd y Mri. J. Tyssul Davies, B.A., Coleg Manceinion, Rhydychain; T. Lloyd Jones, Coleg Newydd, Llundain; T. A. Thomas, Gwilym Evans, T. Jenkins, J. Williams, a James Jenkins, Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin; D. Davies, Gelli-

onen; Miss Evans, Frondolau, Ceinewydd; Mrs. R. J. Jones, Broniestyn, Aberdar; y Meistresi Davies, Caeronen; Mrs. R. C. Jones, Llanbedr; Miss Marlais Thomas, Caerfyrddin, &c., &c. Nos Fawrth, dechreuodd Mr. Williams, myfyriwr, yr oedfa drwy ddarllen a gweddio, ac yna, pregethodd y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed-y-cymmer, bregeth ardderchog ar annghofio y pethau sydd o'r tu ol, ac ymestyn at y pethau sydd o'r tu blaen. Yr oedd y bregeth hon yn agoriad dymunol i'r gyfres o bregethau, ac yn hollol amserol. Yna dylynwyd ef gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yr hwn a draethodd yn benigamp ar "Fywyd." Nododd a phwysleisiodd mai bywyd y dyn da yw yr olygfa brydferthaf yn y greadigaeth. Mewn yspryd cariad, dymunwn grybwyll i ni glywed oddiwrth lawer y byddai yn well pe bai Mr. Jones wedi gadael ei ymddiheurad *(apology)* cyn pregethu gartref, am ei fod yn alluog i bregethu yn ddigon hyawdl hebddi.

Boreu dydd Mercher, mor agos i ddeg ag oedd ddichonadwy, cynnaliwyd y gynnadledd. Dechreuwyd drwy i'r Parch. Enoch Jenkins ddarllen a gweddio, ac yna darllenodd Dr. Griffiths ei bapyr penigamp ar y "Forward Movement," neu y "Mudiad Rhagblaen," yn ol cyfieithiad y Dr. Deallwn fod yn mwriad y Dr. i'w gyhoeddi yn yr Ymofynydd; felly, ofer fyddai i mi flino y darllenydd â chrynodeb o hono. Taniodd y Dr. y gynnulleidfa, fel y darfu i olwyn y gynnadledd droi yn olynol yn hynod esmwyth. Yna, cawsom newydd-beth *(novelty)*, drwy i Mrs. R. J. Jones, Hen Dy Cwrdd, Aberdar, ddarllen papyr byr, ond cynnwysfawr, ar y "Postal Mission." Rhoddodd hanes y mudiad hwn o'i ddechreuad, a deallwn fod Mrs. Jones wedi addaw ei lywyddu yn Nghymru. Da iawn; eiddunwn lwyddiant i'w hymdrechion, oblegyd y mae rhan helaeth o Gymru hyd y nod yn awr yn hollol anwybodus o Undodiaeth Yn sicr, dyma *un* ffordd i ledaenu ein hegwyddorion. Ar ol Mrs. Jones, cododd Mr. Davies, Alltyplaca, i gynnyg fod yr enwad i gasglu y swm ofynai Dr. Griffiths er sicrhau gwasanaeth myfyriwr fel cynnorthwywr iddo yn Nghwm Rhondda yn ystod gwyliau yr Haf. Eiliodd Mr. Jones, Llanbedr, ef, a phasiwyd yn unfrydol. Yna siaradodd Mr. James, Llandyssul, yn hyawdl iawn, ac addefai fod yr Iawnffyddwyr yn symmud yn y blaen yn nghyfeiriad Undodiaeth, a nododd sawl enghraifft i brofi hyn; etto i gyd, yr oedd yn ddyledswydd arnom *ni* i beidio bod yn segur, ond i ymdrechu lledaenu yr egwyddorion sydd yn anwyl genym, er mwyn i'r byd deimlo rhyw ychydig o ddylanwad ein llafur. Dywedodd Mr. Jones, Aberdar, fod Mr. Spears yn barod i neillduo rhyw gymmaint o'r *Christian Life* at wasanaeth y Cymry, a byddai hyn yn foddion i gyflawnu un o'r angenion ag y darfu i'r Dr. eu nodi. Yna dirwasgodd ar bawb i fod yn ffyddlawn i egwyddorion y ffydd Undodaidd, er mwyn ei harddu, ac nid ei gwarthruddo.

Llongyfarchodd Mr. Thomas, Pantydefaid, Mrs. Jones, Aberdar, ar ei phapyr, a gobeithiai efe y byddai boneddigesau ereill a gwraggedd y gweinidogion, megys Mrs. Thomas, Greenparc, a Mrs. James, Brynhyfryd, yn dylyn esiampl Mrs. Jones. Yna, taer annogodd y gweinidogion ac ereill i ysgrifenu i'r Ymofynydd. Yr oedd baich y

gwaith yn cael ei ddwyn gan y Golygydd a Mr. Jones, Aberdar. Yr oedd efe ei hun yn ysgrifenu ambell erthygl. Diolchodd Dr. Griffiths i bawb am eu cydymdeimlad â'i bapyr, a therfynwyd y gynnadledd gan Mr. James Jenkins, drwy weddi.

Yn y prydnawn, dechreuodd Mr. T. Arthur Thomas y cwrdd, a phregethodd y Parch. T. Robinson, Abertawe, yn Seisnig. Pregeth syml, dealladwy, gawsom ar y pwysigrwydd o ffyddlondeb ac ymroddiad i'r Arglwydd. Dylynwyd ef gan y Parch. R. J. Jones, M.A., yr hwn a draddododd "y bregeth" ar "Wele fi, anfon fi." Teimlwn yn ddiolchgar i Mr. a Mrs Jones am ddyfod i'r cyrddau. Gan fod pawb yn gwybod fod iechyd Mr. Jones yn wael yn bresenol, gwelir ar unwaith yr aberth wnaethant. Yr oedd y bregeth yn un adeiladol, yr enghreifftiau ddyfynwyd i'r pwrpas, a'r diweddglo yn goroniad y cyfan. Gwelsom Mr. Jones mewn mwy o "hwyl" lawer tro: yr oedd y papyr o'i flaen efallai yn ei "gadwyno." Tybiai ereill fod darllen ei bregeth yn welliant ar ei ddull arferol. Barned pob un drosto ei hun; ond nid ydym wedi gweled y gynnulleidfa yn cael ei chodi i'r lan i'w huchelfanau gan bregeth, os bydd y pregethwr â'i lygaid "ben-bwy-gilydd" ar ei ysgrif.

Yn yr hwyr, dechreuodd y Parch. D. Evans, Cribin, y cwrdd, a phregethodd Dr. Griffiths a'r Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn gampus. Yr oedd y Dr. am osod pwys dyladwy ar y damcaniaethol, yn gystal a'r ymarferol; yr oedd am fyned yn ol at yr Iesu ei hunan, er dysgu ganddo, ac nid at y "Tadau"—er mwyn cael syniad cywir am Grist. Pwnc Mr. Davies oedd gwaith dyn ar y ddaear. Pregeth dda, ymarferol, oedd hon, fel y gwyr y sawl a'i clywodd. Yn ystod y prydnawn a'r hwyr, canodd Cor Undebol Dosparth Isaf Ceredigion yr anthem, "Teyrnasoedd y ddaear," dan arweiniad y brawd ieuanc talentog, D. Jones, oriedydd. Canodd Mr. Enoch Jenkins yr unawd Bass; efe, Mr. Gwilym Evans, a Miss Jones, Henbant, y triawd; ac unodd Miss Jones, Gelliaur, â'r cantorion blaenorol i ganu y pedwarawd. Cyfeiliodd Miss Davies, Alma House, y canu ar yr *organ* yn ystod yr oedfaon, ac y mae clod yn ddyledus i Mr. a Mrs. Evans, y Porth, am y giniaw i'r gweinidogion. Dymunwn ddiolch i Mrs. James, Brynhyfryd; Miss Jones, Richmond Villa; Mrs. Jones, oriedydd; Mrs. Davies, Alma House; Mrs Evans, Charles street, a boneddigesau ieuanc y Graig, am eu llafur gyda'r cyrddau hyn. Darfu i bapyr Dr. Griffiths esgor ar ffrwyth gweladwy cyn i'r Dr. adael Llandyssul, oblegyd treuliodd efe a gweinidog y Graig y dydd Iau canlynol er casglu tuag at y genadaeth yn y Rhondda, a chawsant dderbyniad calonog gan bawb Boed i'r had da a hauwyd yn y cyrddau ddwyn ffrwyth lawer yw dymuniad—

W. J. Davies.

A oes gan ddyn hawl i fwrw ymaith ei ddedwyddwch ei hunan, yn fwy nag eiddo rhywun arall?

NODYNAU GWASGAROG.

Y PHOTOS.

Mae yn mwriad y Golygydd, os ca ddigon o gefnogaeth at hyny, i gyhoeddi nifer o ddarluniau yn yr Ymofynydd o fis i fis. Mae yn neilldnol awyddus i gadw yn fyw i'r do ddyfodol o Undodiaid adgofion am y gwroniaid ydynt wedi dal pwys a gwres y dydd yn yr achos, ac wedi ei gwneyd hi yn bossibl i ni addoli heb gael ein haflonyddu. Yr ydym yn sicr y bydd yn dderbyniol iawn gan ein darllenwyr ddelweddau gwynebau yr Hen Jones o Benybont, fel y gelwir ef fynychaf; Owen Evans o'r Cefn; Gwilym Marles; John James o'r Geillionen; Proff. Evans; Thomas Thomas o Bantydefaid; R. J. Jones o Aberdar, yn nghyd ag amryw o'n lleygwyr mwyaf blaenllaw. Credwn y bydd y gyfres yn hynod ddyddorol, ac yn foddion i greu sel adnewyddol yn ein pobl ieuainc i efelychu'r tadau, ac i ddylyn yr "hen lwybrau." Nid yw yn bossibl cario yr anturiaeth allan heb draul, ac os oes rhywrai o'n cyfeillion a garent roddi help i ni yn y cyfeiriad hwn, byddwn ddiolchgar. Yn rhifyn Mawrth bydd darlun o'r Parch. Thomas Thomas, ein tad ni fel gweinidogion. A ydyw yn bossibl helaethu cylchrediad ein misolyn gyda'r gyfres hon? Carwn glywed yn fuan er mwyn parotoi.

YMWELIAD A'N HEGLYWSI.

Ar gais y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor bwriadaf yn ystod y ddau fis nesaf ymweled â'n holl eglwysi Cymreig. Mae Undeb Gweinidogion Sir Aberteifi wedi trefnu i mi ymweled ag eglwysi y sir hono fel y canlyn:—Dydd Llun, Chwef. 12fed, Llandyssul am 6; dydd Mawrth, Chwef. 13eg, Pantydefaid am 10, Bwlch am 2.30, Llwynrhydowen am 7; dydd Mercher, Chwef. 14eg, Capelybryn am 10, Alltyplaca am 2.30, Capelygroes am 7; dydd Iau, Chwef. 15fed, Cribin am 10, Caeronen am 2.30, Llanbedr am 6.30; dydd Sul, Chwef. 18fed, Rhydygwin a Ciliau. Hyderaf y gwna y cyfeillion eu goreu i fod yn bresennol yn y gwahanol gapeli ar yr oriau a nodwyd.

Pontypridd, Ionawr 22ain, 1893. William Griffiths.

Y DIWEDDAR MR. JENKIN JENKINS, FELINFACH, LLANFIHANGEL, YSTRAD.

Ganwyd gwrthddrych ein cofiant ar yr 16eg o fis Rhagfyr, 1815, yn y Froganol, yn y plwyf y treuliodd ei oes ynddo. Enwau ei rieni oeddent Griffith a Mary Jenkins. Saer maen oedd ei dad wrth ei alwedigaeth; ac yn un â gair da iddo fel gweithiwr medrus a didwyll; ac yr oedd yn un o hen frodorion dyffryn Aeron. Trwy ei ddiwydrwydd a'i gynnildeb, cafodd Jenkin y manteision goreu yn y gymmydogaeth ar y pryd. Ac yn hyn bu yn fwy ffodus na'r rhan amlaf o'i gyfoedion drwy y wlad, o herwydd fod y diweddar Barch.

Rees Davies, gweinidog Capelygroes ac Ystrad, yn cadw ysgol yn yr ysgoldy a adeiladasid gan David Jenkin Rees ar gyfer yr amcan hwnw, yn nghyda phregethu yuddo ar y Suliau. Wedi gorphen ei ysgol, dechreuodd weithio gyda'i dad, yr hyn a barhaodd i wneyd tra bu'r olaf byw. Ond nid hir y bu hyn, oblegyd cawn i'w dad farw pan nad oedd efe ond 16eg oed, er ei fawr alar a'i golled. Teimlodd ein cyfaill nad gwiw digaloni er hyny, ond fod yn rhaid gwynebu'r dyfodol yn wrol; a hyn a wna nes gorchfygu ei anhawsderau a dyfod yn grefftwr medrus yn holl ranau ei alwedigaeth. Bob yn ychydig ymroddodd i ddysgu cerfio, a llwyddodd i'r fath raddau fel mai efe ar ei deilyngdod ei hun fyddai'n gwneyd cerryg beddau yr holl gymmydogaethau cylchynol iddo am flynyddau. Pan yn 58 mlwydd oed daeth llythyrdy Talsarn yn wag; gwnaeth gais am dano, a thrwy ddylanwad ychydig gyfeillion efe lwyddodd i'w gael, a pharhaodd yn y swydd hyd derfyn ei oes, gan roddi boddlonrwydd cyffredinol. Bu hefyd yn ysgrifenydd y *Benefit Society* yn Ystrad tra y parhaodd. Enw ei wraig oedd Catherine, a genedigol o dref Aberaeron oedd, lle y mae rhai o'i pherthynasau yn aros hyd heddyw, eithr llawer a hunasant. Menyw gall, lariaidd, a darbodus oedd, a phriod ffyddlon hyd y diwedd. Tri o blant iddynt yn unig a gawsant dyfu i addfedrwydd oedran—dau fab a merch. Y mae'r ddau fab a'u mam wedi myned i ffordd yr holl ddaear er's blynyddau. Y mae'r ferch etto'n fyw. Hi yw mam y Parch. Jenkin Thomas, gweinidog Highland Place, Aberdar, a'r diweddar Barch. D. A. Thomas, Cwmbach, o barchus goffadwriaeth. Yr oedd Jenkin Jenkins yn Rhyddfrydwr yn ei wleidiadaeth, ac yn Undodwr goleuedig yn ei dduwinyddiaeth. Yr oedd wedi darllen llawer trwy ei oes o'r Beibl a llyfrau da ereill. Cafodd lawer treial yn nglŷn â'i ffydd, ond ni chlywsom iddo erioed gael ei demtio i'w gwadu na'i gwerthu am arian. Daliodd gyffes ei obaith yn ddyogel hyd y diwedd. Gwnaeth ei ran dros yr achos yn Ystrad a Rhydygwin drwy deg a garw, ac ennillodd iddo ei hun y cymmeriad o ddyn gonest a didderbynwyneb. Ar y 18fed dydd o fis Tachwedd diweddaf cychwynodd yn ei gerbyd i ddosparthu llythyrau tua chymmydogaeth Abermeurig fel arfer; a chwedi troi yn ol, cafwyd ef wedi marw pan nad oedd dros fynud oddiar pan yr oedd wedi cael ei weled i bob ymddangosiad yn iach fel arfer. Yr oedd y tywydd yn hynod dymhestlog; ond diangodd ef o ganol y dymhestl i'r orphwysfa dawel sydd etto'n ol i blant a phobl Duw, yn 78 mlwydd oed. Gosodwyd ei weddillion marwol i orphwys yn mynwent Ystrad yn ymyl yr eiddo ei briod a'i blant, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol yn y tŷ gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yr hwn hefyd a bregethodd ei bregeth angladdol yn Rhydygwin y Sul canlynol. GALARWR.

Manion ac Hanesion.

CYMMANFA NADOLIG. — Cynnaliwyd Cylchwyl Flynyddol yr Ysgolion Sul y Nadolig yn Alltyplaca. Adroddwyd yr ail bennod yn Efengyl Luc gan yr ysgolion canlynol:—Ysgol y lle, Capelygroes, a Chapelybryn. Adroddwyd y drydedd ben-

nod yn Efengyl Ioan gan ysgol Penygraig. Yn absennoldeb y Parch. T. Thomas, arolwyd gan weinidog y lle. Cafwyd Cymanfa hwylus, cynnulliad lluosog, canu ardebol—"Teyrnasoedd y ddaear," yn ghyd ag amryw donau o'r progam newydd, yn swynol i'r eithaf. Rhag eich blaen etto.

TREBANOS.—Dydd Nadolig, cynnaliodd Ysgol Sul y lle uchod ei Gwyl De Flyndol, pryd y cyfranogodd oddeutu 250 o'r lanteithion parotoedig. Bu y merched euainc a'r gwragedd yn ffyddlawn iawn yn gweini wrth y byrddau, fel arfer. Yn r hwyr awd i Ysgoldy'r Bwrdd, er cael gwledd i'r meddwl, a chafwyd gwledd yn gwir ystyr y gair. Yr oedd yr ysgoldy ang wedi ei orlenwi, ac ugeiniau yn gorod troi adref o ddiffyg lle. Y mae appeladau taer wedi cael eu gwneyd at y Pwyllor lawer gwaith am gynnal cyfarfod tebyg tto, yr hyn a fwriadant wneyd mor fuan g y gellir. Cymerwyd rhan yn y cyfarod gan y personau canlynol—Misses Mary Bowen, Mary Davies, Mary Morgan, M. H. Davies, Jane Bowen, Margaret Ann Morgan, a Mrs. Ann Williams; Mri. James Evans, Jno. J. Williams, John Hopkin, John Bowen, David Davies, W. H. Thomas, Benjamin Davies, D. H. Morgan, William Bevan, Henry H. Morgan, D. D. Davies, a Jenkin Morgan. Hefyd dadganwyd amryw ddarnau gan y er, a'r parti gwrywaidd. Hefyd, chwareudd y seindorf bres berthynol i'r capel yn edrus dros ben. Cadeiriwyd yn ddeheuig an Mr. L. Hopkins, Cathylid, fel arfer. wasanaethwyd yn fedrus wrth yr *harmonium* gan Mr. John H. Morgan. Mae clod n ddyledus i'r brawd ieuanc hwn am ei mdrech ddiflino gyda'r *harmonium*. Treulwyd genym nos Nadolig y tair awr fwyaf yfyr ac adeiladol a dreuliasom erioed, a ymuniad pawb wrth ymadael oedd cael yfle i brofi yr un wledd yn fuan etto.

CAPELYGROES. — Cynnaliwyd cyfarfod dloniadol ar ddull *penny readings* yn sgoldy y lle uchod nos Calan. Cymmerwyd y gadair gan Mr. John Davies, Cefnoed, ac arweiniwyd gan Mr. E. E. Jenkins, Blaenwaun. Rhoddwyd rhai gwobrwyon m adrodd darnau dewisol allan o *Blodeu Iefin*, a bu cystadleuaeth bwysig arnynt efyd. Yr ennillwyr oeddynt Annie Jones, Hendryd, a David Thomas, White Hall. Ennillwyd am ddarllen difyfyr gan D. J. arry; a'r pennill difyfyr i "Henaint" gan ohn Thomas, Ty'nllyn. Y beirniad oedd Mr. George Thomas, C.M., Cwrtnewydd. Cymmerwyd rhan yn y canu a'r adrodd gan gor y lle, ac amryw ereill. Cafwyd cyfarfod hwylus a dyfyr dros ben. Bwriedir cynnal cyfres o gyfarfodydd o'r fath.

Yn Rhifyn Mawrth bwriadwn gyhoeddi pregeth odidog y Parch. R. J. Jones, M.A., a draddododd efe yn Llandyssul ar adeg y Cyrddau Chwarterol.

MR. J. R. THOMAS, NILES.—Gwelwn fod y Cymro da a'r Undodwr selog hwn yn llywydd mewn eisteddfod yn Youngstown, yn yr Unol Dalaethau, y Nadolig diweddaf, ac yr oedd ei araeth hyawdl yno yn dweyd ei fod o hyd yn caru ei wlad a'i iaith. Brodor o'r Llwydcoed, ger Aberdar, yw Mr. Thomas, ac ar adeg ei ymweliad â hen ardal ei enedigaeth, tua 18 mis yn ol, rhoddodd £5 tuag at dreuliau yr Hen Dy Cwrdd ar Heolyfelin.

Yr ydym wedi derbyn lluaws o lythyron oddiwrth bobl a wellhawyd o'r caner *(cancer)* gan Mr. Isaac Davis, Pantycelyn, ger Llangadog, ac os gallwn roddi coel i ddegwm o'r hyn a ysgrifenir, mae Mr. Davies, yn ddiamheu, yn un o gymmwynaswyr ei oes.

Y GYMMANFA GANU.—Mae yr argoelion am hon yn parhau yn addawol iawn. Oddiwrth y ffordd y mae yr arweinydd yn ymgymmeryd â'i waith, ni a gasglwn na wna dim ond perffeithrwydd, neu yr agosaf ato, y tro iddo yn Abertawe ddechreu Mehefin. Ceisir genym ofyn i gantorion Sir Aberteifi wneyd pob ymdrech i gael y *ddwy* anthem yn barod erbyn y *rehearsal* gyntaf, a gynnelir ar yr 11eg o Chwefror, yn Nghapelygroes am 2, ac yn y Llwyn am 6. Hefyd, gelwir sylw at y cyfnewidiad hwn yn y dôn "Munich." Yn y drydedd scôr caned yr *alto* fel hyn:—

r |d :d |d :r.m|f :—|f

A'r *tenor* fel hyn:—

f |m :s |d' :ta |l :—|d' :d' |f

Gofaler am y cydgynnulliad, am y bwriedir cael ticedau trwy y rhai yn unig y ceir mynedfa i blith y cantorion ddydd y Gymmanfa.

PONTYPRIDD.—Ionawr 18, cynnaliodd yr Eglwys Undodaidd yn y lle hwn ei gwyl de flynyddol, a chyfranogwyd o honi gan luaws o gyfeillion o bell ac agos. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod cyhoeddus, pryd y cadeiriwyd, yn absenoldeb yr Henadur

Edward Plummer, o Glyncorrwg, gan G. Carslake Thompson, o Gaerdydd, yr hwn a agorodd y gweithrediadau mewn araeth odidog. Ar ol yr araeth galwyd ar y boneddigion a bennodid i siarad ar y pwnc gosodedig, sef "Paham yr wyf yn Undodwr?" a dyfyr oedd gwrando ar y sylwadau ardderchog a wnaethant. Y boneddigion hyny oeddynt y Parchn. R. J. Jones, M.A., J. Hathren Davies, G. St. Clair, a W. J. Phillips. Yn gymhlith â'r anerchiadau caed cerddoriaeth swynol gan feistri yn y gelfyddyd. Da genym weled fod y cyfan mor llwyddiannus.

Marwgofion.

Tachwedd 1, yn 34 mlwydd oed, Rachel, priod Mr. S. H. Brown, o Lundain. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i'r diweddar Thomas Evans, Caerfyrddin, ac yn chwaer i'r Parchn. George Evans, M.A., a T. B. Evans, M.A. Bu gyrfa Mrs. Brown yn un lwyddiannus fel ysgolfeistres, a gweithgar iawn gyda mudiadau crefyddol. Ar derfyn tymhor ei hefrydiaeth yn Ngholeg Normalaidd Abertawe, safai yn flaenaf yn y dosparth blaenaf—anrhydedd a ddisgyna yn anaml i ran merched ieuainc Cymru. O'r coleg aeth yn feistres i un o Fwrdd-Ysgolion Llundain, lle y bu am dros 12 mlynedd yn llafurio gyda chymmeradwyaeth anarferol. Yr oedd yn Undodwraig o'r iawn ryw, yn gweithio yn galed dros yr achos a garai mor anwyl. Yn Nghapel Stamford Street bu yn ffyddlon, yn neilldnol gyda'r Ysgol Sul; a phan yr ymsefydlodd ei brawd, y Parch. T. B. Evans, yn Stepney, symmudodd hi a'i theulu i'r East End, er mwyn bod yn agos ato a chydweithio ag ef dros lwyddiant yr eglwys. Mewn gwirionedd, hi oedd bywyd ac enaid yr Ysgol Sul yn Stepney, ac y mae yn dra sicr na threuliwyd yn y Brif Ddinas erioed fywyd mwy defnyddiol ac ymroddedig i waith godidog nâ bywyd y foneddiges ieuanc hon. Ddiwrnod cyn ei marw, yr oedd yn brysur, fel arfer, yn yr Ysgol, ond bu farw yn hynod sydyn o ddolur y galon. Heblaw mam oedranus, chwaer a dau frawd, gadawodd briod tyner a merch fechan dlos i alaru eu colled am un o ragorolion y ddaear. Dygwyd ei chorff i'w osod yn yr un bedd ag eiddo ei thad yn Nghladdfa Gyhoeddus Caerfyrddin, ac yn yr angladd gwasanaethwyd gan y Proff. Moore a'r Parch. G. H. Roberts (B.)—yr olaf ar ddymuniad y tylwyth. Anhawdd iawn y gall ein heglwysi hebgor rhai tebyg i Mrs. Brown: mae eu gwasanaeth yn anmbrisiadwy tra yma, a'r golled yn fawr wedi eu myned. Ymdaweled y perthynasau yn ngwyneb y dynghed chwerw yn yr ystyriaeth fod ei choffa yn fendigedig.

Tachwedd 17, 1893, Evan Morgan, Moelfre, yn 71 mlwydd oed, ar ol cystudd byr ac esmwyth o ran pob ymddangosiad. Gadawodd un mab a dwy ferch yn eu hamddifadrwydd i alaru ar ei ol. Y mae yn chwith gan yr holl gymmydogaeth ar ei ol, o herwydd yr oedd yn ddyn blaenllaw iawn gyda phob mudiad o ddaioni. Bu yn gymhorth sylweddol tuag at ail-adeiladu Caelygroes. Yr oedd yn aelod yn Nghapelygroes, ond drwy ei anallu i gerdded, ni allai fod yn bresennol yn yr oedfaon er ys rhai blynyddau. Hebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono y dydd Mercher canlynol, gan dyrfa luosog iawn, i fynwent Plwyf Llanbedr. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Cribin, a phregethwyd gan y Parch. T. Thomas.

Rhagfyr 3, yn 5 wythuos oed, Esther, merch Timothy a Margaret Jones, yn Mbenybanc, Templebar. Ar y 6ed o'r mis hebryngwyd hi i orphwys yn mynwent Rhydygwin.

Rhagfyr 13, Hannah Evans, Graigwen, Plwyf Ystrad, yn 74 mlwydd oed. Deuai yr ymadawedig o hen deulu parchus yn mhlith yr Undodiaid, a bu hithau yn aelod yn Rhydygwin drwy ei hoes; ac er ei bod, o herwydd gwaeledd iechyd, wedi methu mynychu yno er's blynyddau bellach, ac yn gorfod myned i'r Llan ar y Sul, etto, yr oedd yn ffyddlon i'w hegwyddorion hyd y diwedd. Gweinyddwyd ddydd ei hangladd yn y ty gan y Parch. E. Morgan, Ficer y Plwyf, ac yn Nghapelygroes, lle y claddwyd hi, gan y Parch. D. Evans, Cribin.



Y Parch. T. Thomas, Pantydefaid.